

---

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 19.06.17

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sion W Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed W. Williams a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Peter Read yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2017 – 2018**

Diolchwyd i'r Cyngorydd Tudor Owen am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor 2016 – 2017 ac awgrymwyd anfon cerdyn ato yn mynegi hynny.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Elfed Williams yn Is Gadeirydd y Pwyllgor am y cyfnod 2017 – 2018**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Jason W Parry

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 6ed o Fawrth 2017 fel rhai cywir.

## 7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 1.2.17, 17.2.17, 08.3.17, 15.3.17 a 27.4.17

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.15am